Tir sy'n gymwys ar gyfer Cyfraniad Tir Gwell

Cyflwyniad

Mae'r daflen hon yn esbonio pa fath o dir y dylai fod gennych cyn y gallwn ni dalu Cyfraniad Tir Gwell (BLC) yn ychwanegol at grantiau plannu o dan y Cynllun Grant Coetir (WGS). Mae'r Cynllun Premiwm Coetir Fferm (FWPS) yn defnyddio'r diffiniadau hyn hefyd.

Pa fath o dir sy'n gymwys ar gyfer Cyfraniad Tir Gwell?

TIR ÂR

Dyma dir sy'n gymwys ar gyfer y 'Cynllun Taliadau Arwynebedd Tir Âr' (AAPS) pan wneir cais o dan y Cynllun Grant Coetir. Ceir diffiniad o'r hyn sy'n gymwys ar gyfer y Cynllun Taliadau Arwynebedd Tir Âr yn Atodiad 2 o'r llyfryn ar reolau a gweithdrefnau'r Cynllun Premiwm Coetir Fferm sydd ar gael ym Mhecyn Gwneud Cais y Cynllun Grant Coetir neu gan eich swyddfa Adran Amaeth leol.

TIR ARALL SYDD DAN GNWD

Dyma dir nad yw'n gymwys ar gyfer AAPS ond sydd, am dair blynedd cyn dyddiad y cais o dan y Cynllun Grant Coetir, wedi bod yn cael ei ddefnyddio i dyfu cnwd amaethyddol arall ar wahân i wellt.

GLASWELLTIR WEDI'I WELLA

Tir amaethyddol yw hwn a gafodd ei wella, fel y diffinnir isod, o leiaf dair blynedd cyn dyddiad gwneud cais o dan y Cynllun Grant Coetir. Byddwn yn gwrthod y Cyfraniad Tir Gwell os gwelwn i'r tir gael ei wella o fewn llai na thair blynedd cyn gwneud cais. Mae'r prawf a ddefnyddir gennym i benderfynu beth yw 'glaswelltir wedi'i wella' yn dibynnu ar a yw'r tir mewn Ardal Lai Ffafriedig (LFA). Mae'r Ardaloedd Llai Ffafriedig yn yr uwchdiroedd fel rheol, ond cewch ragor o wybodaeth gan swyddfa leol yr Adran Amaeth.

- **Y tu allan i'r Ardaloedd Llai Ffafriedig**
  'Glaswelltir wedi'i wella' yw tir lle mae dros hanner y glastir yn rhygwellt, byswellt, rhonwellt neu feillion gwyn, naill ai un ohonynt neu mewn cymysgedd.
- **O fewn yr Ardaloedd Llai Ffafriedig**
  (gan gynnwys Ardaloedd dan Anfantais ac Ardaloedd dan Anfantais Ddifrifol)
  'Glaswelltir wedi'i wella' yw tir lle mae dros draean y glastir yn rhygwellt, byswellt, rhonwellt neu feillion gwyn, naill ai un ohonynt neu mewn cymysgedd.

  Os nad yw glaswelltir o fewn Ardal Lai Ffafriedig yn gymwys o dan y diffiniad uchod, mae'n bosibl y bydd yn dal yn gymwys ar gyfer Cyfraniad Tir Gwell os yw wedi cael ei 'wella' drwy arferion rheoli megis calchio a brigdriniaeth. Bydd hyn yn berthnasol oni bai bod rhywogaethau o blanhigion sensitif yn bresennol mewn cryn nifer, gan fod hyn yn arwydd o laswelltir heb ei wella.



Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Comisiwn Coedwigaeth Cymru
Forestry Commission Wales

Beth yr ydym yn ei gynnwys mewn 'glaswelltir wedi'i wella'

'Glaswelltir wedi'i wella' yw tir pori amaethyddol sy'n cynnwys cymysgedd o wellt a phlanhigion bach. Mae gwahanol ffyrdd o wella glaswelltir ar gyfer amaethyddiaeth. Mae rhai ardaloedd wedi cael eu hau â 'chyltifarau' hynod gynhyrchiol, tra bo eraill yn ddim mwy na glaswelltiroedd lled-naturiol nad ydynt wedi newid ond ychydig. Mae gwella amrywiaeth eang o laswelltiroedd lled-naturiol yn arwain at greu glastiroedd tebyg i'w gilydd sy'n cynnwys ychydig iawn o rywogaethau, ond sy'n gynhyrchiol iawn. Oherwydd hyn, rydym yn gallu edrych ar y glastir ei hun yn hytrach na cheisio darganfod sut y cafodd ei wella.

LLYSTYFIANT MEWN CLYTIAU

Mewn rhai ardaloedd, yn enwedig lle gwnaed gwelliannau bach yn unig i laswelltiroedd, mae'r ardaloedd 'wedi'u gwella' yn glytwaith gyda mathau eraill o lystyfiant. Os yw'r clytiau yn fawr, a'r ardaloedd wedi'u gwella i'w gweld yn amlwg, gellir talu Cyfraniad

Tir Gwell ar gyfer yr ardaloedd wedi'u gwella. Fodd bynnag, nid yw ardaloedd lle mae'r clytiau sydd wedi'u gwella yn gymysg ag ardaloedd sydd heb eu gwella i raddau helaeth yn gymwys ar gyfer Cyfraniad Tir Gwell.

MATHAU O LYSTYFIANT NAD YDYNT YN GYMWYS

Nid yw'r mathau canlynol o lystyfiant, y gellir disgrifio rhai ohonynt fel glaswelltir, yn gymwys. Mae hyn oherwydd nad oes modd edrych arnynt fel tir pori amaethyddol sydd wedi'i wella. Nid yw glaswelltiroedd nas defnyddir ar gyfer amaethyddiaeth yn gymwys chwaith.

- **Coetiroedd a phrysgwydd**
- **Mignenni, corsydd, ffeniau a gwernydd**
  - ardaloedd lle tyf llawer o frwyn, hesg, cyrs, mwsogl y gors *(Sphagnum)* a phlu gweunydd.
- **Rhostiroedd, gweundiroedd grug**
  - ardaloedd lle mae llawer o rug a llus
- **Ardaloedd o blanhigion tal a rhedyn**
  - ardaloedd lle ceir llawer o blanhigion tal megis brenhines y weirglodd (erwain), cronnell, gelaets, rhedyn a choedfrwyn crom
- **Glaswelltir twmpathog**
  - ardaloedd lle ceir llawer o blanhigion sy'n ffurfio twmpathau trwchus megis glaswellt y gweunydd *(Molinia)* a'r gawnen ddu *(Nardus)*.
- **Glaswelltiroedd twyni tywod agored a glaswelltiroedd clogwyni môr**
  - ardaloedd lle tyf moresg, peisgwellt coch a phlanhigion morol megis clustog Fair.

Mae'r rhestr o fathau o lystyfiant nad ydynt yn gymwys wedi'i seilio ar gategorïau y Dosbarthiad Llystyfiant Cenedlaethol. Gallwn roi rhagor o fanylion i chi am y mathau hyn os dymunwch.

Darganfod a yw glaswelltir yn gymwys ar gyfer Cyfraniad Tir Gwell

Unwaith y gwelwn fod eich glaswelltir yn cael ei ddefnyddio at bwrpas amaethyddiaeth, mae'n bosibl y byddwn yn gwneud y profion canlynol i weld a yw'n gymwys ar gyfer Cyfraniad Tir Gwell. Os bydd angen i ni wneud profion, byddwn yn dewis 10 safle ar hap o fewn y tir sydd dan ystyriaeth. Bydd y mannau hyn yn cynnwys ymylon caeau, pentiroedd ac ardaloedd lle y mae'n amlwg bod y llystyfiant yn wahanol.

PROFI AM Y PEDAIR PRIF RYWOGAETH

Ym mhob un o'r 10 safle, byddwn yn archwilio'r llystyfiant mewn cylch o 1m mewn diamedr. Byddwn yn chwilio am rygwellt, byswellt, rhonwellt a meillion gwyn, ac yn nodi faint ohonynt sy'n bresennol. Os yw o leiaf hanner (neu draean, yn achos Ardaloedd Llai Ffafriedig) un o'r cylchoedd prawf wedi'i orchuddio ag un neu ragor o'r pedair prif rywogaeth, yna bydd yn cael ei gyfrif. Os bydd 6 neu ragor o'r 10 cylch prawf yn cael eu

Tir sy'n gymwys ar gyfer Cyfraniad Tir Gwell

cyfrif, yna bydd y tir yn gymwys ar gyfer Cyfraniad Tir Gwell. Mae'n bosibl y bydd tir o fewn yr Ardaloedd Llai Ffafriedig sy'n methu'r prawf am y pedair prif rywogaeth yn dal yn gymwys ar gyfer Cyfraniad Tir Gwell os bydd hefyd yn methu'r prawf ar gyfer 'glaswelltir heb ei wella'.

PROFI AM RYWOGAETHAU SY'N ARWYDD O 'LASWELLTIR HEB EI WELLA'

Byddwn yn dewis 10 safle ar hap fel cynt. Byddwn yn chwilio am y rhywogaethau o blanhigion a geir ar y rhestr ar dudalen gefn y daflen hon. Os byddwn yn dod o hyd i 5 neu ragor o'r rhywogaethau hyn mewn unrhyw gylch prawf, yna bydd yn cael ei gyfrif. Os bydd 6 neu ragor allan o'r 10 cylch prawf yn cael eu cyfrif, yna bydd y tir yn cael ei ystyried yn dir heb ei wella ac ni fydd yn gymwys ar gyfer Cyfraniad Tir Gwell.

ARWYDDION ERAILL O 'LASWELLTIR WEDI'I WELLA' MEWN ARDALOEDD LLAI FFAFRIEDIG

Yn ogystal â chynnwys rhai o'r rhywogaethau a geir yn y rhestr ar dudalen gefn y daflen hon, mae ardaloedd sydd wedi cael eu gwella ar gyfer amaethyddiaeth o fewn yr Ardaloedd Llai Ffafriedig yn aml iawn yn cynnwys rhygwellt, byswellt, rhonwellt a meillion gwyn. Maent hefyd yn aml iawn yn cynnwys maswellt (Holcus lanatus) a rhonwellt y ci (Cynosurus cristatus).

Asesu ceisiadau

Bydd ein Swyddogion Coetiroedd yn ymweld ag ardaloedd sy'n cael eu cynnig ar gyfer plannu newydd o dan y Cynllun Grant Coetir. Maent wedi cael eu hyfforddi i adnabod rhywogaethau allweddol, a byddant fel rheol yn gallu penderfynu a yw'r tir dan sylw yn 'laswelltir wedi'i wella' ac yn gymwys ar gyfer Cyfraniad Tir Gwell. Yn yr achosion hynny lle nad yw'n bosibl gwneud asesiad dibynadwy yn syth, mae'n bosibl y byddwn yn gohirio ein cymeradwyaeth nes bod modd gwneud hyn. Gwneir hyn fel rheol ar ddiwedd y gwanwyn neu ddechrau'r haf.

Achosion ansicr

Os yw'r tir fel arall yn gymwys ar gyfer plannu, ond nad ydym yn meddwl ei fod yn gymwys fel 'glaswelltir wedi'i wella', gallwch ofyn i berson cymwysedig ddarparu tystysgrif yn nodi ei fod wedi archwilio'r glaswelltir ac wedi canfod ei fod yn cwrdd â'n hanghenion. Bydd yn rhaid i chi ofyn i ni a ydym yn derbyn y person dan sylw cyn i chi drefnu'r arolwg. Byddem yn disgwyl fod gan y person hwnnw gymhwyster mewn, a phrofiad o fotaneg amaethyddol neu ecoleg glaswelltir, a'i fod yn gallu adnabod y rhywogaethau pwysig ar ei union. Byddwn yn darparu rhagor o wybodaeth ar ei gyfer ar y dull asesu y dylid ei ddilyn.

Os ydych am wybod rhagor

Cysylltwch â Swyddfa Warchodaeth y Comisiwn Coedwigaeth yn lleol, neu â

Grantiau a Thrwyddedau / Grants and Licences
Y Comisiwn Coedwigaeth / Forestry Commission
Silvan House
231 Corstorphine Road
Caeredin / Edinburgh
EH12 7AT

Ffôn: 0131 334 0303



Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Comisiwn Coedwigaeth Cymru
Forestry Commission Wales

Tir sy'n gymwys ar gyfer Cyfraniad Tir Gwell

Rhestr o rywogaethau sydd yn arwydd o laswelltir heb ei drin

Dyma restr o amrywiaeth o rywogaethau sy'n tyfu ar wahanol fathau o bridd ac sydd yn arwydd o laswelltir heb ei drin.

GWELLT

Crydwellt	*Briza media*
Peisgwellt y Defaid	*Festuca ovina*
Cribwellt	*Koeleria macrantha*
Ceirchwellt Culddail	*Avenula pratensis*
Pawrwellt Unionsyth	*Bromus erectus*
Breichwellt y Tŵr	*Brachypodium pinnatum*
Ceirchwellt Tal	*Arhenatherum elatius*
Ceirchwellt Melyn	*Trisetum flavescens*
Brigwellt Main	*Deschampsia flexuosa*
Cawnen Ddu	*Nardus stricta*
Perwellt y Gwanwyn	*Authoxanthum odoratum*
Glaswellt y Gweunydd	*Molinia caerulea*

HESG A BRWYN

Hesg	*Carex spp*
Coedfrwyn	*Luzula spp*
Plu'r Gweunydd	*Eriophorum spp*

PLANHIGION GYDA RHOSEDI GWAELODOL OND COESYNNAU BLODEUOL DI-DDAIL

Peradyl Garw	*Leontodon hispidus*
Peradyl yr Hydref	*Leontodon autumnalis*
Ysgallen Ddigoes	*Circium acaule*
Melynydd	*Hypochoeris radicata*
Briallu Mair	*Primula veris*

PLANHIGION GYDA DAIL AR Y GWAELOD A'R COESYN (YN LLAI FEL RHEOL)

Chwys Mair	*Ranunculus bulbosus*
Pengaled	*Centaurea nigra*
Gwlyddlwdn Cyffredin	*Sanguisorba minor*
Llysyrlys	*Sanguisorba officinalis*
Crogedyf	*Filipendula vulgaris*
Brenhines y Weirglodd (Erwain)	*Filipendula ulmaria*
Llygad Llo Mawr	*Leucanthemum vulgare*
Efwr	*Heracleum sphondylium*
Suran y Cŵn	*Rumex acetosa*
Pig Garan y Goedwig	*Geranium sylvaticum*
Mantell Fair	*Alchemilla glabra*
Blodyn y Gog	*Cardamine pratensis*
Tresgl y Moch	*Potentilla erecta*
Clafrllys Bychan	*Scabious columbaria*
Clust y Llygoden	*Hieracium pilosella*
Cneuen Ddaear	*Conopodium majus*

PLANHIGION GYDA CHOESYNNAU UNFFURF O DDEILIOG, Y DAIL GWAELODOL YN LLAI FEL RHEOL

Pysen y Ceirw	*Lotus corniculatus*
Mandon Fechan	*Asperula cynanchica*
Meillion Coch	*Trifolium pratense*
Ytbysen y Ddôl	*Lathyrus pratensis*
Briwydden y Rhostir	*Galium saxatile*

PLANHIGION BLYNYDDOL

Llin y Tylwyth Teg	*Linum catharticum*
Cribell Felen	*Rhinanthus minor*

PLANHIGION SY'N FFURFIO MAT

Gruw Gwyllt (Teim Gwyllt)	*Thymus praecox*
Cor-rosyn Cyffredin	*Helianthemum nummularium*
Pedol y March	*Hippocrepis comosa*

IS-LWYNI

Llus	*Vaccinium myrtillus*
Grug	*Calluna vulgaris*
Grug	*Erica spp*

W·O·O·D·L·A·N·D GRANT SCHEME WGS

Forestry Commission MDA Nov 04. © Crown Copyright FCCS425